# Y Gymraeg, tirweddau a newid hinsawdd: Beth yw eu harwyddocâd i ymlyniad pobl i leoedd?

Lana St Leger, Emily-Louise Beech, a Thora Tenbrink

**Cyfeirnod:**
St Leger, L., Beech, E-L., a Tenbrink, T. (2026), 'Y Gymraeg, tirweddau a newid hinsawdd: Beth yw eu harwyddocâd i ymlyniad pobl i leoedd?', *Gwerddon*, 42. <https://doi.org/10.61257/GWER4204>

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2026

**Arfarnu:**
Mae'r erthygl hon wedi cael ei harfarnu gan gymheiriaid drwy broses ddwbl-ddall *Gwerddon*, cyfnodolyn a gyhoeddir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Hawlfraint:**
© 2026 Yr Awdur(on). Mae hon yn erthygl mynediad agored a ddosberthir o dan delerau'r Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution 4.0 (CC BY 4.0), sy'n caniatáu defnydd, dosbarthiad ac atgynhyrchu heb gyfyngiad mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod bod yr awdur a'r ffynhonnell wreiddiol yn cael eu cydnabod. Gweler http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/.

**Mynediad agored:**
Mae hon yn erthygl mynediad agored sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid.

# Y Gymraeg, tirweddau a newid hinsawdd: Beth yw eu harwyddocâd i ymlyniad pobl i leoedd?

Lana St Leger, Emily-Louise Beech, a Thora Tenbrink

**Crynodeb**: Mae'r erthygl ddamcaniaethol a chysyniadol hon yn archwilio lleisiau o Gymru er mwyn deall cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg, tirweddau Cymru, ac ymlyniad lle. Wrth feddwl am her fwyaf ein hoes, newid hinsawdd, mae'n bwysig deall sut y bydd hyn yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn cadw a diogelu treftadaeth genedlaethol a lleol Cymru. Er mwyn gwneud hyn, mae damcaniaeth ymlyniad lle a'r fframwaith Person-Proses-Lle wedi'i gymhwyso. Trwy leisiau pobl Cymru, mae'r astudiaeth hon wedi darganfod bod y Gymraeg yn bwysig wrth i bobl ymlynu at le. Mae'r drafodaeth yn ystyried damcaniaeth ymlyniad at le mewn ffordd newydd gan ystyried enghreifftiau o dri set o ddata. Fel cyfraniad newydd i'r maes, datblygir model Iaith-Ymlyniad er mwyn ddangos bod y Gymraeg yn gweithredu fel llinyn aur sy'n cysylltu Person-Proses-Lle ac yn cario treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol.

**Geiriau allweddol:** Newid hinsawdd, y Gymraeg, treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol, ymlyniad lle, tirwedd.

## The Welsh language, landscapes and climate change: What is their significance for people's attachment to places?

**Summary**: This theoretical and conceptual article examines voices from Wales to understand the connections between the Welsh language, Welsh landscapes, and place attachment. When considering the biggest challenge of our time, climate change, it is important to understand how this will impact the way in which we preserve and protect Wales' national and local heritage. To do this, place attachment theory and the Person-Process-Place framework have been applied. Through the voices of the people of Wales, this study has found that the Welsh language is important for people's place attachment. The discussion considers place attachment theory in a new way, drawing on examples from three data sets. As a new contribution to the field, a Language-Attachment model is developed to show that the Welsh language serves as a golden thread connecting Person-Process-Place and carrying intangible cultural heritage.

**Key words:** Climate change, the Welsh language, intangible cultural heritage, place attachment, landscape.

**Cyflwyniad**

Pwrpas yr erthygl hon yw deall croestoriadau ymlyniad lleoedd ac iaith, a sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar hyn. Fel her fyd-eang gymhleth, mae'r pwnc newid hinsawdd yn cwmpasu mwy na thymheredd cynyddol yn unig, gan effeithio ar feysydd ecolegol, amgylcheddol, cymdeithasol-wleidyddol ac economaidd-gymdeithasol (Abbass et al., 2022). Yn ddiweddar, mae academyddion wedi tynnu sylw at bwysigrwydd canolbwyntio ar effaith newid hinsawdd ar dreftadaeth anniriaethol, gan y gall effeithiau newid hinsawdd arwain at golli amrywiaeth ddiwylliannol (Aktürk a Lerski 2021). Er hyn, yn ôl Orr, Richards a Fatorić (2021), yn anaml y mae treftadaeth anniriaethol yn ffocws penodol i ymchwil, yn enwedig yng nghyd-destun astudiaethau newid hinsawdd.

Mae UNESCO yn ystyried bod iaith yn cludo treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol, sef y traddodiadau llafar, celfyddydau perfformio, arferion cymdeithasol, defodau, digwyddiadau Nadoligaidd, gwybodaeth ac arferion sy'n ymwneud â natur a'r bydysawd neu'r wybodaeth a'r sgìl i gynhyrchu crefftau traddodiadol, yn ôl UNESCO (2003). Yng nghyd-destun yr ymchwil hon, byddai'r hyn sy'n ymwneud â threftadaeth anniriaethol yng Nghymru, er nad yw wedi'i ddiffinio'n benodol am resymau gwleidyddol (Bedford 2024), yn cynnwys traddodiadau lleol (e.e. arferion ffermio), storïau a chwedloniaeth, a'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol Cymru (Braber a Howard 2023), ac yn ôl gwaith Skutnabb-Kangas (2000), gallwn ystyried fod yr iaith ynghlwm wrth ein hunaniaeth a'n tiriogaeth. Mae hefyd yn bwysig ystyried hawliau ieithyddol dynol yn y maes hwn, gydag ymchwil gan Skutnabb-Kangas (2013), er enghraifft, yn pwysleisio bod amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol yr un mor angenrheidiol â bioamrywiaeth ar gyfer bodolaeth ein planed.

Gan ddefnyddio'r Gymraeg a Chymru fel yr astudiaeth achos, byddwn yn archwilio sut y mae pobl yn ymgysylltu â'r iaith trwy enwau lleoedd, yr amgylchedd a thirweddau a sut y mae hyn yn cyfrannu at eu hymlyniad at le. Ynghlwm wrth hyn, byddwn hefyd yn archwilio pa effaith y bydd newid hinsawdd yn ei chael ar hyn. Mae ymchwil wedi darganfod bod ymlyniad pobl at le yng Nghymru yn aml wedi'i blethu â theimlad dwfn o werthfawrogiad tuag at yr iaith a diwylliant Cymru (Tenbrink a Williams 2022). Ymhellach, cydnabuwyd eisoes gan St Leger (2024) a St Leger (2025) bod y Gymraeg a diwylliant yng Nghymru o dan fygythiad, gyda newidiadau amgylcheddol a hinsoddol yn cynyddu'r bygythiad hwn. Mae nifer o astudiaethau wedi archwilio i ymlyniad lle, tirwedd a diwylliant treftadaeth leiafrifol (Scannell a Gifford 2010; Ratcliffe a Korpela 2016; Menatti et al., 2019; Liu et al., 2023), ond nifer bach sydd wedi dadansoddi trwy ddefnyddio'r fframwaith Person-Proses-Lle (Scannell a Giffordd 2010) a'i gysylltu ag iaith yn benodol. Mae'r arwyddocâd o ganolbwyntio ar ddeall cysylltiad iaith ag ymlyniad at le wrth ystyried effeithiau newid hinsawdd yn gyfraniad hollbwysig at ymchwil yn y maes hwn.

Prif nod yr erthygl hon yw deall beth fydd effaith newid hinsawdd ar arwyddocâd y Gymraeg a thirweddau Cymru i ymlyniad pobl at leoedd trwy ddefnyddio fframwaith Person-Proses-Lle (Scannell a Gifford 2010). Er mwyn cyflawni'r nod, ystyrir tri chwestiwn

ymchwil:

1. Sut y mae newid hinsawdd yn debygol o effeithio ar ymlyniad pobl at leoedd?
2. Sut y mae iaith yn cydblethu â fframwaith cysyniadol Person-Proses-Lle?
3. Beth yw'r berthynas rhwng iaith a newid hinsawdd yng nghyd-destun ymlyniad pobl at leoedd?

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, ceir trosolwg o'r cyd-destun ymchwil a chyflwyniad i'r lens ddamcaniaethol y mae'r erthygl hon yn ei defnyddio, sef damcaniaeth ymlyniad lle. Yna ceir nodyn byr sy'n esbonio'r dulliau ac yna cyflwynir y canfyddiadau o amgylch addasiad o'r fframwaith Person-Proses-Lle (Scannell a Gifford 2010), a fydd yn adeiladu darlun o'r croestoriadau rhwng ymdeimlad o le, iaith a thirwedd. Ystyrir y canfyddiadau hyn hefyd ochr yn ochr ag effeithiau newid hinsawdd ar y dirwedd a'r iaith, a sut y mae hyn yn effeithio ar ymlyniad at le. Symudwn ymlaen wedyn i drafod y canfyddiadau lle y byddwn yn cynnig dealltwriaeth ddatblygiadol newydd o'r cysylltiad rhwng iaith ac ymlyniad, gan orffen gyda chasgliad.

## Cyd-destun yr ymchwil

### *Y Gymraeg a diwylliant yng Nghymru*

Ers 1901, bu atchweliadau dramatig yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg, yn ôl data'r Cyfrifiad a gasglwyd. Gostyngodd niferoedd y siaradwyr 21% yn hanner cyntaf y 1900au, a ystyrir yn rhannol oherwydd cynnydd mewn mewnfudo, lle y symudodd tua 100,000 o bobl i Gymru ddiwylliannol o Loegr (Davies 2014). Erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf, y Cymry Cymraeg oedd y lleiafrif yng Nghymru, a chollwyd cenhedlaeth o siaradwyr Cymraeg yn ystod y rhyfel (Jenkins a Williams 2000; Davies 2014). Mewn ymgais i wrthdroi dirywiad y Gymraeg, ymyrrodd Saunders Lewis ar ddau bwynt tyngedfennol: yn 1936, drwy losgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth, ac yn 1962, pan draddododd y ddarlith radio 'Tynged yr Iaith' ar gyfer y BBC.

Yn hanesyddol, tan cyhoeddi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn wleidyddol i hyrwyddo neu warchod iaith treftadaeth Cymru a'i siaradwyr. Ers cyhoeddi Mesur 2011, mae gan y Gymraeg statws swyddogol, ac mae llu o ddeddfwriaethau ac amddiffyniadau wedi'u rhoi ar waith. Dechreuodd hyn gyda safonau'r Gymraeg yn rhoi swyddogaethau i sefydliadau er mwyn parchu'r Gymraeg. O dan safonau Mesur 2011, sefydlwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg, sy'n gyfrifol am gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg 2015; Chriost 2016). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod diwylliant Cymru yn fywiog, a'r Gymraeg yn ffynnu. Cymru yw un o'r gwledydd cyntaf i gyflwyno cyfraith fel hon. Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nododd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2020) ei bod yn croesawu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, ond nad yw'r newidiadau strwythurol

sydd eu hangen i'w gyrraedd mewn lle ar hyn o bryd.

Er gwaethaf nifer o lwyddiannau gwleidyddol, addysgol a chymdeithasol yr iaith, mae lleihad yn nefnydd cymdeithasol y Gymraeg, yn enwedig mewn cymunedau lle y mae canran uchel o siaradwyr (Comisiwn Cymunedau Cymraeg 2024). O fewn cymunedau lle y siaredir y Gymraeg gan y lleiafrif, mae ymchwil wedi darganfod bod heriau o ran defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i giatiau'r ysgol (Evans et al., 2019). Yn ôl y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (2024), mae'r dirywiad hwn, yn enwedig mewn cymunedau lle y ceir canran uchel o siaradwyr, yn fygythiad. Maent yn galw am addasiadau i bolisïau cenedlaethol a chyhoeddus, gan gynnwys polisi economaidd, tai, addysg, a chynllunio gwlad a thref. Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg (2024) hefyd yn adnabod pwysigrwydd ystyried yr argyfwng hinsawdd a'r effaith ar y Gymraeg, gydag effeithiau sydd eisoes yn cael eu gweld ledled y byd (Jaakkola et al., 2018) yn enwedig mewn perthynas â'r straen economaidd sydd ar gymunedau, ieithoedd lleiafrifol ac arferion treftadaeth (Addaney et al., 2022). Mae cydnabod hyn yn bwysig er mwyn deall pa fath o niweidiau y mae ieithoedd lleiafrifol yn agored iddynt, sy'n cyd-fynd â chyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy 11 a 13 y Cenhedloedd Unedig (Cenhedloedd Unedig 2015; Addaney et al. 2022).

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei blaenoriaethau ar gyfer diwylliant. Nodir yn y blaenoriaethau hyn bod cysylltu trwy ymdeimlad o le yn rhan bwysig o gysylltu cymunedau â'u hunaniaethau diwylliannol, trwy enwau lleoedd, tirweddau, hanes lleol, adeiladau, gwrthrychau, treftadaeth ddogfennol, mudo, traddodiadau a storïau (Llywodraeth Cymru 2025). Nodir tair blaenoriaeth i ddiwylliant yng Nghymru:

1. Mae diwylliant yn dod â phobl ynghyd
2. Dathlu Cymru fel cenedl o ddiwylliant
3. Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy.

Mae cyhoeddiadau'r blaenoriaethau hyn yn dangos bod Cymru'n meddwl am bwysigrwydd diwylliant, ond heb fwy o wybodaeth ni all y sector diwylliannol gynllunio'n fwy effeithlon ar gyfer y dyfodol (Llywodraeth Cymru 2025).

***Damcaniaeth ymlyniad lle a thirwedd***

Mae damcaniaeth ymlyniad lle yn pwysleisio bod dibyniaeth weithredol a phwysigrwydd diwylliannol hefyd yn cyfrannu at ymlyniad at le gyda phrofiad emosiynol (Lv et al. 2025). Yng nghyd-destun yr ymchwil hon, mae ymlyniad i le yn darparu lens ddamcaniaethol ddefnyddiol i ddeall ffenomen gymhleth a chyd-destunol newid hinsawdd a threftadaeth anniriaethol. Defnyddir y fframwaith cysyniadol Person-Proses-Lle (PPLl, neu'r '3Ps – People-Process-Place' yn Saesneg, Scannell a Gifford 2010) i ddeall y broses ymlyniad at y Gymraeg yng Nghymru. Adolygodd papur Scannell a Gifford (2010) yr ymchwil gyfredol ar ymlyniad â lle, gan ei threfnu'n unol â'r fframwaith tri dimensiwn PPLl. Pwrpas y fframwaith yw creu strwythur tair rhan unedig (Scannell a Gifford 2010). Mae'r dimensiwn *personol* (people) yn

gwahaniaethu rhwng ystyr lle unigol a grŵp. Mae'r *broses* seicolegol (psychological process) yn cynnwys effaith (cysylltiad emosiynol), ymddygiad (cynnal agosrwydd), a gwybyddiaeth (meddyliau). Mae'r dimensiwn *lle* (place) yn ymwneud â nodweddion ffisegol a chymdeithasol lle, sy'n cyfrannu at y cwlwm rhwng pobl a lleoedd (Inalhan, Yang a Weber 2021).

Yn benodol, mae'r broses tri dimensiwn yn gofyn y cwestiynau 'pwy sy'n arddangos ymlyniad at le', 'sut y mae'r ymlyniad yn cael ei ffurfio a'i fynegi', a 'beth yw'r lleoliad neu'r gwrthrych penodol sy'n destun yr ymlyniad'. Gallai hanes cyfoethog, profiadau a chysylltiad â hunaniaeth a threftadaeth leol gyfrannu felly at ddatblygu ymlyniad at le. Ar y nodyn hwn, canfu Graves (2024) yn ei waith yng Nghymru bod y cysylltiad rhwng iaith a'r amgylchedd yn ymwneud â mwy na gwybodaeth yn unig. Pwysleisiodd fod hanes pobl, perthynas unigryw â'r dirwedd leol, a hanes yn llunio diwylliant Cymru mewn ffordd anniriaethol. Er bod nifer o astudiaethau yn archwilio gwahanol agweddau ar ymlyniad at le mewn perthynas â chanfyddiad tirwedd mewn gwledydd sydd hefyd ag ieithoedd a diwylliant lleiafrifol treftadaeth (Scannell a Gifford 2010; Ratcliffe a Korpela 2016; Menatti et al., 2019; Liu et al., 2023), ceir diffyg ymchwil gynhwysfawr sy'n dadansoddi'r fframwaith PPLl mewn perthynas ag iaith yn benodol. Yn fwy na hynny, gyda newid i amgylcheddau lleol oherwydd effeithiau newid hinsawdd, mae'n bwysig deall ffactorau ymlyniad at le er mwyn hwyluso llwyddiant ymdrechion gwarchod a chadwraeth yr amgylchedd (Jayakody et al., 2024). Cyfraniad yr erthygl hon yw datblygu ein dealltwriaeth o ddamcaniaeth ymlyniad at le a'i chroesffyrdd ag iaith, gan ddefnyddio'r Gymraeg a Chymru fel astudiaeth achos, yn ogystal â chreu dealltwriaeth o ba effaith fydd newid hinsawdd yn ei chael ar hyn. Mae'r ymresymiad yn tynnu ar dair astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan awduron yr erthygl hon. Bydd dulliau'r astudiaethau hyn yn cael eu nodi'n fyr yn yr adran nesaf. Mae'r ffaith bod y tair astudiaeth yn wahanol iawn i'w gilydd a'r data wedi'u casglu mewn cyd-destunau amrywiol yn galluogi mewnwelediadau cyffredinol sy'n berthnasol i ddamcaniaeth ymlyniad at le.

## Dulliau

### *Astudiaeth 1- Pan fydd y stryd yn siarad (PSS)*

Nod cyffredinol y prosiect hwn oedd deall effaith newid hinsawdd ar y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yng Nghymru, gan astudio hyn trwy lens leol ac arbenigol. Mabwysiadodd yr astudiaeth gynllun ymchwil ansoddol er mwyn casglu mewnwelediadau i ganfyddiadau cyfranogwyr (Miles a Huberman 1994; Silverman 2013; Patton 2015). Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig er mwyn caniatáu archwilio safbwyntiau ac opsiynau 40 o gyfranogwyr a samplwyd yn bwrpasol (Gray 2009). Unwaith y cafwyd caniatâd, recordiwyd y cyfweliadau gyda recordydd llais (ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb) a thrwy recordio cyfarfodydd (ar gyfer cyfweliadau MS Teams ar-lein). Roedd gan gyfranogwyr (n=40 dros 18 oed) y dewis i gynnal eu cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac ni chawsant eu barnu ar eu dewis o iaith[1]. Yna ar gyfer creu trawsgrifiadau'r cyfweliadau hyn gair am air,

1 Casglwyd y data yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er mwyn sicrhau cysondeb, cyflwynir pob dyfyniad yn Gymraeg, a chyfieithiadau'r awdur yw'r cyfieithiadau o'r Saesneg.

defnyddiwyd cwmni trawsgrifio ag iddo enw da ar gyfer y cyfweliadau Cymraeg, ac ar gyfer y cyfweliadau Saesneg defnyddiwyd Otter AI (gwasanaeth trawsgrifio AI). Cynhaliwyd dadansoddiad thematig atblygol (Braun a Clarke 2006, 2021) gan ddefnyddio NVIVO (fersiwn 1.7.1), trwy ystyried themâu a nodwyd yn ddiddwythol ac yn anwythol. Roedd yr ymchwil yn destun gweithdrefnau moesegol trwyadl yn 2023 a osodwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd (cod cymeradwyo 2023DE0029).

***Astudiaeth 2 – CODA***

Nod yr astudiaeth empeiraidd oedd ymchwilio sut y mae ymlyniad at le yn cael ei fynegi mewn disgrifiadau o luniau o lyn cyfarwydd ac anghyfarwydd. Defnyddiwyd lluniau yn cynnwys sbwriel wrth lyn er mwyn darganfod a oedd yr emosiwn yn gryfach oherwydd bod y sawl sy'n edrych ar y llun yn gyfarwydd â'r ardal ac felly eisiau ei amddiffyn. Cynhaliwyd yr astudiaeth trwy arolwg ar-lein, a anfonwyd trwy e-byst ac a rannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol â phreswylwyr sy'n lleol i Lyn Padarn. Wrth ddosbarthu'r arolwg, derbyniodd yr holl gyfranogwyr fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddau fersiwn o'r arolwg (A a B). Roedd arolwg A yn cynnwys llun y llyn cyfarwydd (Llyn Padarn) heb sbwriel a llyn anghyfarwydd gyda sbwriel, ac roedd arolwg B yn cynnwys llun o lyn cyfarwydd (Llyn Padarn) gyda sbwriel a llyn anghyfarwydd heb sbwriel. Roedd y cyfranogwyr yn rhydd i ddewis a chwblhau pa bynnag arolwg yr hoffent. O'r 28 o bobl a gwblhaodd yr arolygon, dychwelwyd 13 arolwg A yn y Gymraeg neu'r Saesneg a 15 arolwg B yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dadansoddwyd y data disgwrs gan ddefnyddio dadansoddiad disgwrs gwybyddol (Cognitive Discourse Analysis – CODA; Tenbrink 2020). Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar elfennau megis sylw, strwythur, a dewis geiriau o'r disgrifiad o'r llynnoedd er mwyn cynnig pa rai sy'n mynegi ymlyniad at le, megis yn yr eirfa emosiynol a ddefnyddir. Roedd y testunau disgrifiadol eu hunain hefyd yn cael eu darllen er mwyn penderfynu a roddir sylw i rywbeth penodol, megis y lleoliad yn unig, wedyn penderfynir beth gall hyn ei olygu o ran ymlyniad at le. Cynhaliwyd yr astudiaeth hon fel rhan o fodiwl ôl-raddedig yn 2023, gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Moeseg ym Mhrifysgol Bangor.

***Astudiaeth 3 – Y Map Cyhoeddus (MC)***

O fewn prosiect mwy a elwir y prosiect Map Cyhoeddus (Public Map) (2023–2025), canolbwyntiodd rhan ohono ar y Gymraeg a'r cysylltiadau â'r ardal a'r amgylchedd lleol. Ceisiodd y prosiect ddarganfod yr hyn sy'n bwysig i'r bobl ar Ynys Môn, gan greu map digidol sy'n adlewyrchu hyn ar gyfer cefnogi polisïau a phenderfyniadau pellach ar gyfer yr ynys yn seiliedig ar ddata o'r ynys. Defnyddiodd y prosiect ehangach ddulliau cymysg er mwyn casglu data. Yn ystod Sioe Môn, bu unigolion lleol yn llenwi holiadur ar y maes ei hun. Yn ogystal, arsylwyd gweithgareddau ysgolion er mwyn casglu data a chreu nodiadau maes, er enghraifft, defnyddiwyd gweithgareddau crefft yn yr amgylchedd naturiol er mwyn i'r plant a phobl ifanc drafod yn agored yr hyn y maent yn ei hoffi a ddim yn hoffi am eu hardal leol. Bwriad casglu data am y Gymraeg yn ystod y prosiect oedd deall agweddau

plant a phobl ifanc Ynys Môn at eu hardal leol, a sut y mae'r iaith yn cael ei defnyddio wrth gysylltu â'r amgylchedd. Cymeradwywyd holl weithgareddau'r prosiect gan y Pwyllgor Moeseg ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2024.

## Canlyniadau

Er mwyn archwilio'r cysylltiad rhwng iaith, ymlyniad lle a thirweddau, bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno o amgylch addasiad o'r fframwaith PPLl i gyd-fynd â'r ffocws ar iaith. Yn gyntaf, bydd cysylltiadau Person-Iaith-Tirwedd yn cael eu cyflwyno trwy ddeall profiadau unigol a beth yw barn cyfranogwyr yr astudiaeth driphlyg am eu tirweddau, sy'n effeithio ar eu hymlyniad at le. Yn dilyn hyn, cyflwynir canfyddiadau sy'n ymwneud â Phroses-Iaith-Tirwedd. Yma, ceir archwiliad i'r prosesau gwybyddol ac emosiynol sy'n ymwneud ag ymlyniad at le, gan ystyried sut y gallai ymadroddion ieithyddol a deongliadau tirwedd fod yn gatalydd ar gyfer ymlyniad. Cyn symud at ddatblygiad y ddamcaniaeth ymlyniad at le a'r iaith, bydd Lle-Iaith-Tirwedd yn cael ei archwilio. Gan ystyried yr ymlyniad hwn yn y tair ffordd, byddwn hefyd yn ystyried pa effaith fydd newid hinsawdd yn ei chael ar gysylltiadau pobl â lle. Wrth gyflwyno'r canlyniadau o dan dri is-bennawd, bydd canfyddiadau'r tair astudiaeth yn cael eu trafod ar y cyd.

### *Person-Iaith-Tirwedd*

Gall ymlyniad at le weithredu ar lefelau unigol neu gyfunol (Scannell a Gifford 2010). Yn unigol, yn ein cysyniad o Berson-Iaith, y cysylltiadau personol sydd gan bobl â'r iaith fyddai hynny, a sut y mae hyn yn creu cwlwm emosiynol. Nodir bod iaith yn bwysig er mwyn uno cymunedau.

> 'Natur iaith yw'r bobl. Dyna beth yw gwraidd iaith, pobl. Mae pobl angen gofodau go iawn i ddod at ei gilydd, casglu at ei gilydd a siarad.'
> [Cyfranogwr 3, Astudiaeth PSS]

Nodir pwysigrwydd siarad am fyd natur amgylcheddol eu hardaloedd lleol yn y Gymraeg gan nifer o gyfranogwyr yn y tair astudiaeth. Yn sylweddol, sonia nifer am sut y mae'r Gymraeg yn chwarae rhan ganolog yn eu hunaniaeth bersonol ac yn y gymdeithas leol. Yn ystod Sioe Môn, gweler isod un o'r ymatebion i'r cwestiwn 'pa mor bwysig yw'r Gymraeg yn eich ardal chi?':

> 'Mae'r Gymraeg yn un o'r gwerthoedd mwyaf yn fy mywyd – mae'n ddiwylliant a chysur. Mae'n gymaint o ran o fy mywyd bob dydd – y ffenestr sy'n egluro'r byd a'r amgylchedd i mi.'
> [Astudiaeth MC]

Wrth feddwl am dirwedd Cymru, cynhaliwyd sesiynau mapio mewn ysgolion trwy'r

astudiaeth MC. Yn ystod y sesiynau hyn, ymwelodd plant yr ysgol â'r dirwedd leol a rhoddwyd amser iddynt drafod pwysigrwydd y dirwedd yn eu hardal leol. Er enghraifft, aeth un o'r ysgolion i goedwig gyfagos. Wrth i'r ymchwilydd arsylwi'r plant, cyfrwyd y geiriau allweddol a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r goedwig. Y tri phrif air a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r dirwedd leol oedd 'harddwch', 'cartref' a 'peace' [Astudiaeth MC]. Mae Tabl 1 yn dangos nifer y plant a gwblhaodd yr arolwg, a'u dewisiadau iaith.

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol 1 | Bl. 4+5 | 25 plentyn (12/25 'Home' 48%) (10/25 'Peace' 40%) |
| Ysgol 2 | Bl. 5 | 29 plentyn (19/29 'Cartref' 65.5%) (20/29 'Harddwch' 70%) |
| Ysgol 3 | Bl. 3+4 | 32 plentyn (15/32 'Cartref' 47%) (19/32 'Harddwch' 59%) (22/32 'Heddychlon' 69%) |

**Tabl 1: Canlyniadau arolwg ysgol Map Cyhoeddus**

Mae disgrifiadau o'r dirwedd leol, yn ôl y 86 o blant a gymerodd ran yn yr arolwg, yn dangos tueddiad i ddisgrifio lle neu dirwedd gyfarwydd fel 'Cartref' (53% o blant). Yn ôl Scannell a Gifford (2010), mae geirfa fel 'cartref/home' yn nodi perthynas ac ymlyniad cryf i le, felly mae hyn yn dynodi bod ymlyniad cryf ac emosiynol at y dirwedd. Mae gwaith gan Lewicka (2011) wedi darganfod hefyd bod y gair 'cartref' wedi'i gysylltu'n gryf ag ymlyniad at le. Ar y cyd â'r disgrifiad o 'gartref', daeth y geiriau 'harddwch' (45%) a 'peace' (37%) i'r amlwg. Nodir sawl darn o waith academaidd ar sut y mae prydferthwch a heddwch tirwedd yn gysylltiedig ag ymlyniad at le (Kaplan 1995; Hidalogo a Hernandez 2001).

Yn debyg i hynny, sonnir yn Astudiaeth PSS am brydferthwch Cymru, a phwysigrwydd ymgysylltu â byd natur er mwyn datblygu'r teimlad o ymlyniad personol at le trwy greu atgofion a storïau, gyda'r bwriad o'u rhannu â chenedlaethau'r dyfodol.

> 'Ma' Cymru efo golygfeydd ac mae'n wlad mor brydferth, llawn, llawn holl fathau o natur ac fel tirweddau so dwi'n meddwl mae'n mynd i allu addysgu pobl gymaint gwell na unrhyw le arall really. A trwy 'neud e mewn ffordd lle ma' 'na weithgareddau hwyl achos ... gweithgareddau hwyl, ond hefyd addysgol ... neud yn siŵr bod atgofion, atgofion da ac wedyn atgofion sydd yn hefyd, ie, dysgu'r plant am y dyfodol hefyd, stuff bydd plant yn cofio nes iddyn nhw fod yn oedolion hefyd.'
> [Cyfranogwr 8, Astudiaeth PSS]

Yn gysylltiedig â hyn y mae'r syniad o'r cysylltiadau rhwng Person-Iaith-Tirwedd, ac i rai unigolion a chymunedau yng Nghymru, mae hyn yn dod yn arwyddocaol trwy arferion traddodiadol arbennig, fel y gwelir yn amaethyddiaeth werinol Cymru. Nododd y cyfranogwyr yn Astudiaeth PSS bwysigrwydd ystyried pa effaith fyddai newid hinsawdd yn ei chael ar ieithwedd y byd natur.

> ‘Ma’ ’na ieithwedd ... geiriau sy’n ymwneud â byd natur ac sy’n ymwneud â rhannau penodol o Gymru ac mae’r dafodiaith, os mynnwch chi, mewn gwahanol rannau o Gymru yn dibynnu llawer ar fyd natur yng nghefn gwlad ... Nawr os ydy’r rhywogaethau’n mynd i newid [oherwydd newid hinsawdd], os ydy ffermio yn mynd i newid [oherwydd newid hinsawdd]... dwi’n meddwl am y blodau sydd gynnon ni ar y foment, planhigion sydd gynnon ni ar y foment, ’da ni’n gwybod be’ di’r enwau Cymraeg oherwydd dyna be’ ‘da ni wedi cyfarwyddo â... Os ddaw ’na rywogaethau i mewn ’da ni ddim yn gyfarwydd â nhw, ble fyddwn ni’n cael y gair Cymraeg? Oes ’na air Cymraeg? ... Bydd y werin ddim yn gyfarwydd â’r gair yna.’
> [Cyfranogwr 11, Astudiaeth PSS]

Mae hyn yn gysylltiedig â sut y mae cymuned neu grŵp yn canfod y synnwyr o le drwy iaith, yn ogystal ag arferion, nodweddion naturiol neu dirweddau sy’n gysylltiedig â hynny. Daeth y syniad hwn am bwysigrwydd defnyddio’r iaith yn y gymdeithas mewn ateb i gwestiwn mewn holiadur am y prosiect Map Cyhoeddus ar gyfer ymwelwyr i Sioe Amaethyddol Môn.

> ‘Mae cael pethau fel hyn [Sioe Môn] sy’n cadw’r iaith Gymraeg ar ein hynys yn hollbwysig. Mae’n rhan o’n traddodiad.’
> [Astudiaeth MC]

Mae’r defnydd o iaith er mwyn cadw traddodiadau yn hollbwysig, yn enwedig yn y gymdeithas amaethyddol. Mae pwysigrwydd y defnydd o iaith mewn amaethyddiaeth yn dod o’r arferion a’r disgrifiadau o ddulliau ffermio traddodiadol, a cheir pryderon y bydd ffermio yn newid gyda newid hinsawdd, ac y ceir newidiadau i dreftadaeth ffermio a thraddodiadau teuluol.

> ‘A Chymry Cymraeg ffermio sy’ ’na, dwi’m yn credu bo’ ffermwyr gwerinol Cymraeg yn gweld y ffarm fel rhywbeth i greu arian, fel rhywbeth i sicrhau gwell bywyd. Ma’ nhw’n ei weld e fel rhywbeth sy’n perthyn i’r teulu.’
> [Cyfranogwr 11, Astudiaeth PSS]

I rai unigolion a chymunedau yng Nghymru, mae hyn yn dod yn arwyddocaol trwy arferion traddodiadol arbennig, fel y gwelir yn amaethyddiaeth werinol Cymru, yn enwedig wrth ystyried yr effaith y gallai newid hinsawdd ei chael ar arferion treftadaeth ac iaith natur. Wrth ystyried y syniad bod pobl yn ymgysylltu â lle mewn gwahanol ffyrdd, a chyda ffermydd yn cael eu pasio o un genhedlaeth i’r nesaf, mae disgwyl y bydd gwahanol hunaniaethau o fewn teuluoedd a syniadau am sut y maent yn ymlynu at le neu’r dirwedd. Golyga hyn fod eu cysylltiad â lle, drwy eu profiadau unigol a hefyd newidiadau i’r proffesiwn trwy newid

hinsawdd (fel y sonnir uwchben), yn llunio eu hunaniaeth amaethyddol ac ymlyniad at genedlaethau eraill o ffermwyr.

> 'Y gwahaniaeth mawr yng Nghymru yw'r traddodiad teuluol o ffermio. Ma' Hen Dad-cu wedi gadael i Dad-cu wedi gadael i Dad wedyn gadael i'r Mab a fydd y mab yn gadael i'r ... hynny yw, dwi'n credu fod yna fwy o berthynas rhwng y pridd fel petai.'
> [Cyfranogwr 11, Astudiaeth PSS]

Mae Xu et al. (2019) yn dangos bod cysylltiadau emosiynol â'r tir a hanesion personol ffermwyr yn annog ymddygiadau gofalgar parhaus. Soniodd cyfranogwyr yn astudiaeth PSS am y cyswllt rhwng ymlyniad unigolion at dirwedd a'r teimlad o stiwardiaeth, a sut y mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig iawn yn y broses o ymlynu at dirwedd a'r gymdeithas leol.

> 'Rydyn ni'n gwybod bod pethau fel cael ymdeimlad o berthyn, gallu mynegi eich hun yn rhydd, wyddoch chi, yn bwysig iawn, yn enwedig ar gyfer iechyd meddwl a lles ond yn gyffredinol ... o ran cydnerthedd cymunedol mae'r mathau hynny o fondiau cymunedol yn bwysig iawn, iawn ... Dw i'n meddwl eu bod nhw'n wirioneddol bwysig oherwydd os ydyn ni'n rhoi cyfle i rywun gael eu stori a'u naratif eu hunain yna rydyn ni'n rhoi rhywfaint o reolaeth iddyn nhw drostyn nhw ... a rhywfaint o berchnogaeth fel hyn.'
> [Cyfranogwr 17, Astudiaeth PSS]

O safbwynt datblygu cymunedau gwydn, yn enwedig wrth wynebu effeithiau newid hinsawdd, mae ymdeimlad o berthyn yn bwysig. Nodwyd gan gyfranogwyr bod iaith a defnydd iaith yn bwysig iawn wrth uniaethu â'r gymuned yn ogystal â gwrando arnynt. O safbwynt y Gymraeg, a'r broses o unigolion a grwpiau yn ymlynu at le a'r dirwedd, nodir bod defnyddio iaith ffafriol yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'r nod o amddiffyn y tir a chymunedau yn erbyn effeithiau newid hinsawdd. Mae hyn yn gysylltiedig â nodyn a roddwyd ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru (2025) ar gyfer diwylliant sy'n pwysleisio bod mentrau a yrrir gan gymunedau yn rhan hanfodol o gadw, gwella a dathlu diwylliant ar lefel leol.

***Proses-Iaith-Tirwedd***

Mae'r cysylltiad proses-iaith-tirwedd yn ymddangos trwy'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â'r lle dros amser. Enghreifftiau o'r broses hon yw arferion cymdeithasol, adrodd storïau, mynd i ddigwyddiadau'n rheolaidd a chyfranogiad cymunedol. Mae ymlyniad yn gallu digwydd trwy gysylltiad â lle penodol. Gan feddwl am sut y mae tirwedd yn newid oherwydd

newid hinsawdd, gallai hyn effeithio ar storïau sy'n ymwneud â thir. Mae syllu ar y sêr yn enghraifft glir o effaith newid hinsawdd:

> O safbwynt syllu ar y sêr, dyma'r un [rwyf wedi ei weld] sydd wedi'i effeithio fwyaf gan y sefyllfa newid hinsawdd bresennol rydyn ni'n ei phrofi ... dros y pedair blynedd diwethaf yn benodol ... rydyn ni'n cael llawer mwy o gymylau yn yr awyr. Mae hyn oherwydd cynhesu'r atmosffêr a'i allu i ddal mwy o leithder a'i gymylau llwybr ... a pheidio â chael llawer mwy o law. Ond rydyn ni'n cael llawer mwy o gymylau. Ac mae hynny'n cael effaith sylweddol ar ein gallu i ddisgrifio siâp y cytserau; mewn gwirionedd yn hysbysu pobl am y fytholeg, y cytserau. Felly, mae ein treftadaeth ddiwylliannol yn cael ei cholli yn y cyswllt hwnnw.
> [Cyfranogwr 22, Astudiaeth PSS]

Gwelir y cysylltiad rhwng proses, iaith, tirwedd ac effaith newid hinsawdd yma wrth feddwl am adrodd storïau sy'n ymwneud â chytserau. Wrth feddwl am effaith newid hinsawdd ar y tywydd, mae'r gallu i adrodd y storïau hyn, ac i gysylltu â'n mytholeg yn y ffordd hon er mwyn creu'r ymdeimlad, yn dod yn anoddach. Noda Cyfranogwr 22 hefyd yr effaith y 'mae tywydd yn ei [ch]ael ar y ffordd y gall pobl deithio i'r lleoliadau hyn [lleoliadau lle gellir edrych ar y sêr], yn enwedig er mwyn cyrraedd meini hirion. Mae llawer o feini hirion hefyd o dan fygythiad o erydiad arfordirol o achos newid hinsawdd' [Astudiaeth PSS].

Fel y gwelir yn ystod astudiaeth CODA, roedd y broses wybyddol o ymlyniad at le wedi'i hamlygu'n gryf wrth i'r cyfranogwyr ddisgrifio llyn cyfarwydd (Llyn Padarn) er mwyn ei gymharu â llyn anghyfarwydd. Mae'r modd y maent yn rhoi disgrifiadau hir i'r ddau lyn yn dangos pa mor gryf yw'r broses wybyddol.

> 'Dyma Lyn Padarn gyda golygfa tuag at Yr Wyddfa o Bont Penllyn ym Mrynrefail. Mae'n un o'r golygfeydd harddaf yng Nghymru (neu'r byd!). Mae'r llyn cyfan yn ymestyn o'ch blaen. Mae'r eira ar y mynydd a welir yma bob amser yn olygfa groesawgar wrth i'r gaeaf ddod i mewn. Mae'r llun hwn yn edrych fel pe bai wedi'i dynnu ar ddiwrnod hydrefol clir, gyda'r haul yn tywynnu i lawr ar Eryri.'
> [Astudiaeth CODA]

Pan edrychodd cyfranogwyr astudiaeth CODA ar y llun o'r llyn cyfarwydd, sbardunwyd storïau am newid yn hanes y llyn, a chof cymdeithas lle y mae cyfranogwyr o'r ardal yn disgrifio'r llyn. Hefyd, adroddwyd storïau am weithgareddau y buont yn cymryd rhan ynddynt wrth y llyn. Mae'r enghraifft hon o adrodd storïau am hanes y llyn, a hefyd am brofiadau personol, yn dilyn syniadau bod harddwch tirlun yn sbarduno emosiynau unigolion a hefyd yn cynyddu eu hymlyniad at le (Wu et al., 2023). Yn ôl Lewicka (2013),

mae amlinellu'r amrywiad cof yn ffactor sylweddol wrth ymddangos ymlyniad at le a pherthynas emosiynol ag ef.

> 'Golygfa gyfarwydd o Lyn Padarn o'r lagwns efo pass Llanberis yn y cefndir. Y Glyderau ar y chwith, Yr Wyddfa a'i chriw ar y dde ... Yn y blaendir mae olion amlwg o'r broblem fawr o adael sbwriel ar ôl mwynhau diwrnod yn canŵio, supio, nofio ayb yn y lle hyfryd yma ... Ar y chwith mae'r goeden unig sy'n cael llawer o sylw ar y gwefannau cymdeithasol, efo llawer yn heidio i dynnu llun.'
> [Astudiaeth CODA]

Mae gwaith Lewicka yn pwysleisio bod naratif sydd wedi ymlynu at le yn atgyfnerthu a chadarnhau ymlyniad at le. Ac yn wahanol i'r disgrifiadau hir am y llyn cyfarwydd, mae'r datganiadau a gasglwyd am y llyn anghyfarwydd o dirwedd canolbarth Cymru lawer yn fyrrach. Mae hyn eto'n gysylltiedig â phroses, gan fod ymddygiad yn cael ei ddylanwadu gan yr agosatrwydd y mae'r unigolyn yn ei deimlo tuag at y lle. Mae'r broses seicolegol yn ategu at hyn, fel y sonnir yn y ddamcaniaeth ymlyniad at le a thirwedd uchod.

> 'Rhyw lyn dwi ddim yn adnabod, efo glannau sydd yn rhannol wedi'u gorchuddio â choedwig lydanddail, a rhannau efo coedwig pinwydd – a rhan wedi'i thorri lawr – sydd yn edrych yn fwy "artiffisial" ac allan o le rywsut.'
> [Astudiaeth CODA]

Gan ystyried faint o amser a dreulir mewn lle, mae'r dyfyniadau a'r storïau a rannwyd gan gyfranogwyr astudiaeth CODA yn cryfhau'r syniad bod amser ac ymlyniad yn dylanwadu ar ei gilydd. Mae'r canlyniad hwn yn dangos hiraeth, sef pan fydd cof sy'n seiliedig ar leoliad cyfarwydd yn deffro atgof melys o blentyndod, sydd wedi'i siapio gan hanes teulu neu'r lle. Wrth gwrs, mae diddordeb a buddsoddiad y gorffennol yn gallu llunio'r ymlyniad i le (Lewicka 2013), ac mae'n bosibl y gall hefyd ffurfio ymgysylltiad deallusol ac emosiynol at dirwedd y lle.

Adnabuwyd hyn hefyd gan gyfranogwyr a fagwyd ar fferm deulu. Roeddent yn pryderu am sut y mae bywyd a gwaith ffermio wedi newid dros y blynyddoedd, a sut fydd rôl ffermwyr yn newid yn y dyfodol oherwydd newid hinsawdd.

> 'Dwi'n credu wrth fod y newid yn digwydd yn y math o ffermio 'da ni'n 'neud â'r bobl sy'n ffermio. Ma' fe'n codi cwestiwn 'da fi weithiau, oes 'na bosibilrwydd y bydd y traddodiad llên, y traddodiad barddoni, y traddodiad ysgrifennu sydd mor gryf yn yr ardaloedd hyn, ydy hwnna'n mynd i barhau. A ma' hwnna yn ofid genna'i wedyn.'
> [Cyfranogwr 11, Astudiaeth PSS]

Trwy'r mecanweithiau deinamig y sonnir amdanynt uchod, mae'n bosibl y bydd hunaniaeth amaethyddol yn cael ai hailgynhyrchu trwy arferion newydd o achos newid hinsawdd. Yn unol â hyn y mae'r effaith y gall hyn hefyd ei chael ar yr iaith yn y pendraw. Gydag amodau ffermio yn newid yn gyson oherwydd tywydd eithriadol a newid i amseroedd y tymhorau, sonnir hefyd am bryderon dadleoli oherwydd heriau newydd a ddaw gyda ffermio traddodiadol mewn oes o newid hinsawdd.

> 'Dydy ffermio yng nghefn gwlad Cymru ddim yn hawdd. Mae'n waith caled ... mi fydden nhw [y genhedlaeth ifanc] yn chwilio am well byd ... Ac yn anffodus, ma' hynny yn golygu nid o reidrwydd parhau mewn amaeth, mae'n golygu trefoli a ma'n golygu symud i waith fel arall.'
> [Cyfranogwr 11, Astudiaeth PSS]

Nid yn unig y bydd y tywydd yn effeithio ar y byd amaethyddol a'r ffordd y mae'r broses yn galluogi i berson deimlo ymlyniad at le, ond hefyd mae'n debygol y byddwn yn ei weld yn effeithio ar ddigwyddiadau. Wrth feddwl am effeithiau newid hinsawdd ar ddigwyddiadau rheolaidd yng Nghymru sy'n dathlu'r iaith a diwylliant, mae'r cyfranogwyr yn sôn am ba fath o oblygiadau a geir i bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymreig.

> 'Pan ma'r tywydd yn wael fel ma' 'di bod dros Awst sydd yn wahanol iawn i flwyddyn ddiwetha', lle oedd 'na lot o haul, ma'n, ma'n gallu rhoi pobl off mynd i ddigwyddiadau fel 'Steddfod, fel Tafwyl, fel Gŵyl Fach y Fro, lle ma' 'na gymdeithas gref Gymraeg yna a ti'n gweld faint o bobl sydd yna'n siarad Cymraeg ... 'di pobl ddim isio bod yn sefyll o gwmpas a mynd yn wlyb ... dwi'n meddwl ma' digwyddiadau fel hwnna'n eitha' pwysig. Yn enwedig i'r bobl sydd mwya' angerddol am yr iaith Gymraeg, mwya' siawns ti'n mynd i isio mynd beth bynnag ydy'r tywydd.'
> [Cyfranogwr 8, Astudiaeth PSS]

Yn gysylltiedig â'r syniad o Broses-Iaith-Tirwedd, mae'r dyfyniad uchod yn sôn am ddau safbwynt. Y cyntaf yw'r ystyriaeth o dywydd mwy eithafol, lle y bydd pobl yn colli cymhelliant i fynd i ddigwyddiadau traddodiadol a chymdeithasol Cymraeg sydd yn yr awyr agored. A'r ail yw, er gwaethaf y tywydd, y bydd pobl sy'n angerddol dros yr iaith yn dangos ymroddiad cryf i'r digwyddiadau hyn trwy'r broses o ddefnyddio'r iaith ac ymlyniad.

***Lle-Iaith-Tirwedd***

Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhywbeth pwysig sy'n arwain at ymdeimlad pobl Cymru at le. Mae eu pwysigrwydd ynghlwm wrth hanes a threftadaeth Cymru. Enghraifft o hyn yw'r defnydd o 'Llan' ar ddechrau enwau lleoedd. Yn hanesyddol, ystyr 'Llan' yw eglwys neu

blwyf, sydd wedi'i chysegru i sant neu seintiau. Mae enwau lleoedd yn aml yn adlewyrchu'r broses o Gristioneiddio Cymru o'r bedwaredd ganrif ymlaen a'r pentrefi a ffurfiwyd o gwmpas yr eglwysi cynnar. Enghreifftiau o hyn yw Llanfair (Eglwys Fair), Llanelli (Eglwys Elli), a Llanilltud Fawr (Eglwys Illtud Fawr). Yn ôl y cyfranogwyr, mae enwau lleoedd yng Nghymru yn agwedd bwysig mewn perthynas â'r cyswllt rhwng lle, llenyddiaeth ac iaith.

> 'Dwi'n dod o'r un ardal â D. J. Williams, yr awdur D. J. Williams ... A darllen ei lyfrau fe, ma' ieithwedd y'n ardal i yn dod drosodd yn gryf.'
> [Cyfranogwr 11, Astudiaeth PSS]

Mae'r cysylltiad rhwng tirwedd ac iaith hefyd yn sylweddol wrth ddatgan enwau ar gyfer planhigion brodorol a'r rhai sydd wedi'u henwi ar ôl y tymhorau. Soniodd ffermwr am arwyddocâd enwau Cymraeg a roddir i blanhigion.

> ''Dyn nhw ddim yn sylwi ar enwau planhigion, adar a bob math o bethau, ond mae enwau'r planhigion yn enwedig yn arwyddocaol o le ma' nhw'n tyfu neu pa bryd ma' nhw'n tyfu. Er enghraifft ... llysiau'r wennol, so ma' hwnnw'n blodeuo pan mae'r wennol yn cyrraedd so mae'r planhigyn yn deutha ti rywbeth am y planhigyn 'ma. Petha' fel 'na, ti ddim yn ca'l hwnna'n Saesneg. Ma'r petha' fel 'na, y geiria' yn, yn, t'mod gwreiddio chdi yn y tir, y gymuned.'
> [Cyfranogwr 1, Astudiaeth PSS]

Gwelir yma enghraifft sicr o'r cyswllt rhwng lle, iaith a thirwedd, gyda symbolaeth gref o'r tir gydag ymdeimlad at le trwy'r iaith. Nid ydym yn sicr sut y bydd Cymru yn edrych o ganlyniad i effaith newid hinsawdd yn y dyfodol, er y ceir efelychiadau cyfrifiadurol o'r effaith sy'n defnyddio gwyddoniaeth a rhagfynegiadau tywydd. Fel y darganfu St Leger (2024), mae asedau diwylliannol ac ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perygl yn sgil effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol. Codwyd pryderon hefyd ymhlith cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon ynghylch y posibilrwydd o golli geiriau oherwydd newidiadau yn arferion traddodiadol Cymru, er enghraifft, arferion amaethyddol, a newidiadau mewn bioamrywiaeth, a gallai rhai o'r newidiadau fod oherwydd effeithiau uniongyrchol newid hinsawdd (e.e., tywydd, tymhorau).

> 'A does 'na ddim dwywaith [y bydd] byd ffermio yn newid [oherwydd newid hinsawdd]. Ma' ffermio yn newid... ma'r eirfa yna yn mynd i ddiflannu. Mi fydd 'na eirfa newydd yn dod, ond mi fydd cyfoeth o eirfa yn diflannu, felly dw'i yn teimlo bod hwnna'n drueni.'
> [Cyfranogwr 11, Astudiaeth PSS]

Mae cywirdeb enwau neu'r defnydd o enwau Cymraeg wedi ymddangos ar draws y prosiect Map Cyhoeddus. Yn ystod y drafodaeth gydag unigolion lleol Caergybi wrth arsylwi, cafwyd y sgwrs hon am ddefnydd y Gymraeg ar gyfer enwau lleoedd yn Lloegr:

> 'Dwi'm w'bod falle os da ni'n parchu llefydd Lloegr yn eu hiaith nhw, byddwn nhw'n parchu ein hiaith ni. Nai beidio defnyddio rhywbeth fel Castell Newydd os mae hynny'n golygu bysa nhw'n defnyddio Eryri!'
> [Astudiaeth MC]

Mae'r sylw hwn yn cyd-fynd â phwysigrwydd yr iaith wrth enwi lleoedd mewn achos lle y mae gan berson ymlyniad cryf at nid yn unig y dirwedd ond yr iaith hefyd. Pwysleisiwyd hyn hefyd gan gyfranogwr am ddefnydd o enwau lleoedd ar Ynys Môn.

> 'Y pethau bach fel sicrhau bod yr enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio o gwmpas y rhannau hyn (Ynys Môn) yw'r peth. Nawr, alla i ddim siarad Cymraeg ond rydw i wedi byw yma ers dros 40 mlynedd felly rydw i'n gwybod pa mor bwysig ydyw, ar ôl byw yma a bod wedi fy amgylchynu gan y lle am gyhyd. Dim ond parch ydyw ... Parch i'r bobl leol ac i'r tir i'w alw wrth ei enw priodol.'
> [Astudiaeth MC]

Gan gyfeirio at bwysigrwydd defnyddio'r iaith dreftadol wrth siarad am enwau lleoedd fel arwydd o barch, mae gwaith gan Berg a Kearns (1996) a Rose-Redwood, Alderman a Azaryahu (2010) hefyd yn pwysleisio'r un pwyntiau â'r cyfranogwr o Ynys Môn. Nododd yr academyddion hyn bod adfer enwau lleoedd yn yr iaith dreftadol yn dangos parch at hunaniaeth ddiwylliannol, ac yn cydnabod awdurdod dros y tir. Mae'r syniad hwn yn plethu â chyfalaf symbolaidd (gwaith Pierre Bourdieu 1991), a bod gan y Gymraeg statws uchel yn yr ardaloedd hyn lle y mae'n symbolaidd yn y lleoliad ac i'r bobl leol. Yn yr achos hwn, mae cyfalaf ieithyddol y Gymraeg yn uchel, ac mae'r ymdrech i gynyddu hyn ledled Cymru yn glir. Enghreifftiau o hyn yw enwi lleoedd naturiol yn ôl eu henwau Cymraeg yn unig, megis Yr Wyddfa a Bannau Brycheiniog.


## Trafodaeth a datblygiad damcaniaeth ymlyniad lle a'r iaith

Yn dilyn cyflwyniad Scannell a Gifford (2010) o'r fframwaith PPLl, yn hytrach na llwybr unffordd, mae'r papur hwn wedi dehongli pwysigrwydd gweld y meysydd wedi'u cysylltu'n ddeinamig. Mae'r ymchwil a'r data a gyflwynir hyd yn hyn yn cadarnhau bod y llif deinamig hwn o Berson-Proses-Lle yn wir am ymlyniad i le a sut y gallai newid hinsawdd effeithio ar hyn.

Wrth gyfeirio at y cwestiwn ymchwil cyntaf 'sut y mae newid hinsawdd yn debygol o effeithio ar ymlyniad pobl at leoedd?', mae canfyddiadau'r papur hwn wedi dangos potensial

i ymlyniad at le ddatblygu ac esblygu, sydd yn bwysig wrth ystyried newidiadau i dirwedd yng Nghymru. Mae ymlyniad at le yn dod i'r amlwg ym mhob cenhedlaeth, ond gwelir bod canfyddiadau'r cenedlaethau hyn am y lle neu'r dirwedd yn fwy cyfoethog o ran atgofion, profiadau a storïau sy'n gysylltiedig â'r lle neu'r dirwedd, gan gyfrannu at y deongliadau tirweddol sy'n cael eu trosglwyddo drwy'r cenedlaethau. Roedd sawl cyfranogwr yn yr astudiaethau wedi arddangos cysylltiad emosiynol â'r dirwedd yng Nghymru, ac roedd yr ymlyniad hwn yn effeithio ar deimladau cyfranogwyr am y pwysigrwydd o feddwl am effaith newid hinsawdd, yn enwedig yn eu hardaloedd lleol. Fel y dywedodd un unigolyn yn y papur hwn, mae arferion traddodiadol arbennig yn perthyn i deuluoedd a chymunedau, ac mae'n rhaid ystyried y cysylltiadau emosiynol hyn â'r tir, ac ystyried pa effaith fydd newid hinsawdd yn ei chael. Roedd yr enghraifft o Lyn Padarn yn dangos hyn yn gryf, lle y rhannwyd storïau llawn profiadau cyfoethog, o gymharu â sylwadau heb emosiwn, afloyw, wrth ddisgrifio llyn anghyfarwydd. Yn dilyn awgrymiadau Lewicka (2013), mae'r ymlyniad yn dod i'r amlwg drwy'r atgofion a'r berthynas emosiynol â lle. Darganfu gwaith Tenbrink a Willcock (2023) fod ymlyniad cryf at dirwedd yn siapio sut y mae'r person neu gymuned yn prosesu risgiau newid hinsawdd yn emosiynol a gwybyddol. I gymunedau amaethyddol yn enwedig (fel y gwelir yn astudiaeth PSS), mae ymlyniad yn cael ei ffurfio dros nifer o genedlaethau, ac oherwydd newid yn yr hinsawdd, mae pryderon am sut y bydd yr ymlyniad a'r berthynas â'r tir yn newid yn y dyfodol. Mae hyn yn pwysleisio canfyddiad gwaith Xu et al. (2019) ac eraill (Harrison 2011; Azmi, Ahmad ac Ali 2014) gan ddangos bod hanes unigolion a chyswllt â'r tir yn hyrwyddo ymddygiadau parhaus o ofal. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, mae newid hinsawdd yn debygol o gryfhau ymlyniad pobl at leoliad a chreu ymdeimlad o frys er mwyn cryfhau, cadw ac amddiffyn nodweddion anniriaethol a diriaethol yr ymlyniad.

Wrth ateb yr ail gwestiwn ymchwil 'sut y mae iaith yn cydblethu â fframwaith cysyniadol Person-Proses-Lle?', yn ddiddorol, mae'r Gymraeg yn ymddangos fel llinyn aur drwy'r broses o Berson-Proses-Lle. Chwaraeodd yr iaith ran hollbwysig wrth gario treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol drwy'r ymlyniad a oedd gan bobl i le, a hefyd drwy ymlyniad cenhedlaeth at le, megis y gymuned amaethyddol. Cyflwynir model addasedig o theori PPLl yn ffigur 1 er mwyn dangos datblygiad y ddealltwriaeth a gymerwyd o'r mewnwelediadau am y Gymraeg mewn perthynas â'r broses o ymlyniad at le. Dangosir hyn gan y llinell aur a gyflwynir yn y ffigur, sy'n dangos rôl gysylltiedig y Gymraeg fel rhan o'r fframwaith Person-Proses-Lle.




**Ffigur 1: Model Iaith – Ymlyniad**

Fel y dangosir yn Ffigur 1, gan ystyried cymhlethdod y pwnc ymlyniad at le, a'r tair elfen Person-Proses-Lle, mae'r Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol mewn gallu plethu a chysylltu'r tair elfen, hyd yn oed wrth wynebu effeithiau newid hinsawdd. Hebddi, er bod y broses o ymlyniad at le yn dal i ddigwydd, bydd y gallu i gario treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol trwy'r broses o ymlyniad at le yn anos, yn enwedig os bydd newid hinsawdd yn esgor ar effeithiau eithriadol. Mae'r cydsyniad hwn yn hollbwysig wrth feddwl am gynaliadwyedd y Gymraeg yn nghyd-destun polisïau dyfodol cynllunio ieithyddol a diwylliant. Yn enwedig wrth feddwl am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r mewnwelediad hwn yn ffordd o feddwl am sut y gall y Gymraeg fodoli nid fel nod yn unig o ran nifer y siaradwyr, ond fel treftadaeth fyw. Mae'r papur hwn wedi dangos sut y mae'r Gymraeg yn cryfhau ymlyniad pobl at leoedd, a gellir ei ddefnyddio er mwyn deall pwysigrwydd yr iaith o fewn y fframwaith ymlyniad wrth wynebu effeithiau newid hinsawdd.

Gan ystyried y trydydd cwestiwn ymchwil 'beth yw'r berthynas rhwng iaith a newid hinsawdd yng nghyd-destun ymlyniad pobl at leoedd?', gwelir bod ymlyniad yn cael ei ffurfio a'i fynegi mewn sawl ffordd, a bod y Gymraeg yn ffurfio craidd y mynegiant i rai cymdeithasau yng Nghymru. Enghraifft o'r data a gasglwyd yn y papur hwn yw'r sylwadau gan y gymuned amaethyddol am newidiadau i eirfa o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd ar y tir a newid ym mioamrywiaeth y wlad, lle y cyfeirir at golli'r eirfa fel 'trueni'. I bobl sydd wedi ymsefydlu yng Nghymru, mae'r Gymraeg yn ffactor sy'n ffurfio ymlyniad at le, a'r rhesymeg dros hyn yw parchu'r bobl a thir brodorol. Yn ogystal, mae cysylltiad cryf rhwng y Gymraeg a'r tir (Graves 2024; Tenbrink et al. 2026), yn seiliedig ar enwau a storïau lleol,

cysyniadau sy'n cael eu cyfleu drwy eiriau ystyrlon am natur, a hanes hunaniaith y Cymry fel pobl sy'n byw mewn cysylltiad agos â natur. Mae hyn yn pwysleisio bod ymadroddion ieithyddol yn gatalydd ar gyfer ymlyniad, ac felly yn ein helpu i ddeall arwyddocâd y Gymraeg i ymlyniad pobl i leoedd. Yn enwedig wrth ystyried posibilrwydd newid tirweddau gyda newid hinsawdd, yn ôl canfyddiadau'r papur hwn mae angen ystyried newidiadau posibl i storïau ac ieithwedd sy'n ymwneud â thir. Pwysleisiwyd hyn gan gyfranogwyr wrth drafod syllu ar y sêr, iaith natur ac amaethyddol, er enghraifft. Mae hyn yn gysylltiedig â gwaith Jayakody et al. (2024), gan bwysleisio'r rhwydweithiau cymhleth rhwng ymlyniad at le a chanfyddiadau ynghylch addasiadau i newid yn yr hinsawdd. Ymhellach, mae'r erthygl hon wedi arddangos bod gwerthoedd unigol a chymdeithasol yn chwarae rôl hanfodol wrth ddeall lefelau o bryder am newid hinsawdd a'r effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yng Nghymru.

Casglwyd syniadau bod iaith yn bwysig ar gyfer uno cymunedau, a hefyd yn nodwedd bwysig mewn perthynas ag enwi lleoliad. Mae pobl sydd wedi ymlynu at dirwedd neu le penodol yn teimlo ymlyniad emosiynol at ddefnydd y Gymraeg wrth gyfeirio at leoliadau. Cyfeirir at dirlun cyfarwydd neu brydferth hefyd fel testun ymlyniad at le yng Nghymru, fel y dangoswyd yn y data, sydd yn dangos bod toponymau ieithyddol yn cyfrannu at ymlyniad, a bod ymadroddion ieithyddol yn bwysig ar gyfer yr ymlyniad hwn. Mae ymchwil ddiweddar hefyd wedi cysylltu'r nodweddion tirlun ag ymlyniad at le (Wu et al., 2023; Yang a Liu 2025; Vanhofen, Hartel a Reichert 2025; Lv et al., 2025). Fel y gwelir yn astudiaeth CODA, datganodd sawl un ohonynt bod ymatebion emosiynol i dirwedd, trwy ddefnyddio geirfa Gymraeg fel prydferthwch a heddychlon, yn dangos ymlyniad cryf at le ac yn creu cysylltiadau emosiynol cryf trwy'r Gymraeg.

Gan gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n rhaid meddwl am sut y gallwn wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn gynaliadwy gan hefyd edrych ymlaen at sut y bydd ymlyniad at le yn newid yn y dyfodol. Gan ystyried hyn, mae gallu a phwysigrwydd y Gymraeg fel gwrthrych i gario treftadaeth ddiwylliannol-anniriaethol yn hollbwysig gan y bydd tirweddau'n newid yn ogystal â threftadaeth (St Leger 2025) ac arferion treftadol diwylliannol Cymraeg (St Leger 2024). Wrth feddwl am bwy sy'n arddangos ymlyniad at le, mae'n ymddangos bod iaith yn chwarae rhan ganolog i 'bwy' sy'n ymlynu at le penodol. Sylwodd nifer o gyfranogwyr yn y tair astudiaeth bod defnyddio geirfa Gymraeg sy'n gysylltiedig â lleoedd, tirwedd a chysylltiadau rhwng y cenedlaethau yn ffordd gref o annog ymlyniad at le a thirwedd. Dyma fewnwelediad pwysig i ddeall sut y mae tirweddau a thoponymau ieithyddol yn cyfrannu at ymlyniad. Wrth i effeithiau newid hinsawdd ddod i'r amlwg, bydd tirweddau'n newid, ac felly bydd yr amlygiad i ymlyniad yma yn esblygu gyda'r tir, a gyda hyn, 'pwy' fydd yn ymlynu.

Yn wyneb effeithiau newid hinsawdd, mae teimladau o berthyn yn bwysig yn ôl lleisiau cyfranogwyr yr erthygl hon. Mae'r prosesau o ymlynu at le neu dirwedd yn dod ag ymdeimladau o berthyn, yn enwedig wrth feddwl am amddiffyn tir, cymunedau neu

draddodiadau, gyda'r Gymraeg yn chwarae rôl hanfodol i gadw ymlyniad at le a threftadaeth yn fyw. Gwelir academyddion eco-ieithyddiaeth fel Kaplan (2017) yn datgan bod ymlyniad at le ac at ddiwylliant wedi'i fewnosod mewn ymarferion ieithyddol, ac felly mae'n bwysig deall arwyddocâd yr iaith wrth gynllunio'n ieithyddol (Mühlhäusler 2000). Gan ystyried nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae pwysigrwydd hybu arwyddocâd yr iaith yn hanfodol er mwyn cadw cysylltiadau emosiynol yn hytrach na dysgu'r iaith fel pwnc addysgol yn unig. Er gwaethaf y nod heriol hon, yn enwedig ar ôl i Gyfrifiad 2021 amlygu gostyngiad yng nghanran y siaradwyr, mae angen meddwl am sut y gallwn amddiffyn y Gymraeg a nodweddion ei threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol (e.e. hunaniaeth, hanes, treftadaeth, storïau), fel gwrthrych ymlyniad. Fel y dywed Mühlhäusler (2000), mae angen ystyried iaith fel rhan o system ecolegol sy'n cynnwys pobl, diwylliant, amgylcheddau, gwleidyddiaeth, a pherthnasoedd cymdeithasol. Mae'r model Iaith-Ymlyniad yn datgan pwysigrwydd astudio a chynllunio ar gyfer y Gymraeg fel rhan o'i system ecolegol, gan fod iaith ac ymlyniad wedi plethu â hanes, hunaniaeth, storïau a theimladau o berthyn. Gan ystyried gostyngiad y canran o siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, mae hyn yn fygythiad i ymlyniad emosiynol a diwylliannol i le. Yn wyneb newid hinsawdd, mae'r pwysigrwydd yn cynyddu gan fod y Gymraeg yn wrthrych sy'n cario treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yng Nghymru, yn enwedig mewn cymunedau sy'n wynebu newid amgylcheddol neu newid sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

## Casgliad

Mae'r erthygl hon wedi cyfrannu at ymchwil sy'n canolbwyntio'n llwyr ar dreftadaeth anniriaethol a newid hinsawdd, rhywbeth na welir yn aml mewn gwaith academaidd (Orr et al., 2021). Mae'r data a'r drafodaeth wedi cyfeirio tystiolaeth tuag at pa effaith fydd newid hinsawdd yn ei chael ar arwyddocâd y Gymraeg a thirweddau i ymlyniad pobl at leoedd. Trwy ddefnyddio fframwaith Scannell a Gifford (2010), Person-Proses-Lle, mae'r erthygl hon wedi ailddychmygu'r syniadau, a'u datblygu er mwyn cynnig bod y Gymraeg yn edau aur yn y broses. Yn ogystal â dull amlddisgyblaethol arloesol yr erthygl hon, mae datblygiad y model hwn yn gyfraniad unigryw at y ddamcaniaeth ymlyniad at le.

Gan gadw canfyddiadau'r erthygl hon mewn cof, a hefyd ystyried cyfyngiadau'r ymchwiliadau, mae sawl argymelliad ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Mae'r erthygl hon wedi cyfrannu at adnabod llwybrau y dylai ymchwil eu harchwilio mewn perthynas â'r pwnc ymlyniad at le, newid hinsawdd ac iaith. Mae'r tair astudiaeth a'i chanfyddiadau'n gweithredu fel man cychwyn ar gyfer ymchwil bellach i ddeall y cysylltiad rhwng iaith a newid hinsawdd. Dylai llunwyr polisi fod yn ymwybodol o ganfyddiadau'r erthygl hon, a'r canfyddiadau unigryw er mwyn deall ymlyniad at le sy'n gysylltiedig yn benodol â threftadaeth a diwylliant Cymru, yn enwedig drwy'r model a gyflwynwyd gennym gyda'r Gymraeg yn edau aur y gellid ei helpu i greu a pharhau ymlyniad at le.

Er mwyn gallu datblygu'r cysyniadau hyn, dylai ymchwil bellach ddatblygu astudiaethau achos hydredol sy'n archwilio effaith newid hinsawdd ar elfennau penodol o dreftadaeth

anniriaethol. Mewn rhai achosion, bydd astudiaethau achos penodol sy'n seiliedig ar lefydd neu feysydd penodol yn werthfawr. Byddai gwneud hynny'n caniatáu astudiaeth fanylach i'r ffenomen a mwy o ddealltwriaeth o brofiadau a phryderon cymunedol. Ymhellach, mae'r gwaith ymchwil hwn wedi canolbwyntio ar Gymru fel astudiaeth achos, ac felly ni ddylid cyffredinoli'r canfyddiadau hyn ar gyfer gwledydd eraill. Dylid felly ystyried astudiaethau achos mewn gwledydd eraill a chanddynt ieithoedd lleiafrifol.

I gloi, mae'r erthygl hon wedi dangos bod y Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol mewn ymlyniad at le ac yn 'wrthrych' fel y cyfryw i bobl ymlynu at dirwedd yng Nghymru. Yng nghyd-destun hunaniaeth a lle, gall ystyriaethau ehangach cynaliadwyedd a newid hinsawdd beri bygythiad sylweddol i dreftadaeth anniriaethol frodorol (megis arferion amaethyddol a chyfranogiad mewn digwyddiadau) nad yw'n cael ei archwilio'n aml. Mae'r erthygl hon yn ddechreuad pwysig i ddeall beth all y bygythiad mwyaf yn ein hoes ei ddwyn o gymunedau, pobl a lleoedd, ac yn galw am symud ymlaen â'r trafodaethau ar oblygiadau ehangach posibl newid hinsawdd i dreftadaeth anniriaethol, yn benodol y Gymraeg a theimladau o berthyn yng Nghymru, ac i Gymru.

## Cydnabyddiaethau

Mae'r ymchwilwyr yn dymuno diolch i'r cyfranogwyr ymchwil a gymerodd yr amser i siarad a rhannu eu storïau a'u safbwyntiau yn y tair astudiaeth. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru am ei rhan yn galluogi mynediad at yr arbenigwyr yn ystod y prosiect PSS. Diolch yn fawr hefyd i dîm golygyddol Gwerddon am eu hawgrymiadau a'u sylwadau drwy gydol y broses adolygu.

## Cyllid

Derbyniodd Lana St Leger gyllid gan Wasanaethau Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer y prosiect PSS drwy eu cynllun Dechrau Arni. Derbyniodd Thora Tenbrink ac Emily-Louise Beech gyllid drwy'r prosiect Map Cyhoeddus (AH/Y003772/1) a Chymru Wledig LPIP Rural Wales (ES/Y502376/1). Derbyniodd Emily-Louise Beech gyllid drwy Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (ES/P00069X/1).

## Cyfeiriadau

Abbass, K., et al. (2022), 'A review of the global climate change impacts, adaptation, and sustainable mitigation measures', *Environmental Science and Pollution Research*, 29 (28), 42539–59. <https://doi.org/10.1007/s11356-022-19718-6>

Aktürk, G., a Lerski, M. (2021), 'Intangible Cultural Heritage: A Benefit to Climate-Displaced and Host Communities', *Journal of Environmental Studies and Sciences*, 11 (3), 305–15. <https://doi.org/10.1007/s13412-021-00697-y>

Anton, C. E., a Lawrence, C. (2014), 'Home is where the heart is: The effect of place of residence on place attachment and community participation', *Journal of Environmental Psychology*, 40, 451–61. <https://doi.org/10.1016/j.jenvp.2014.10.007>

Azmi, N. F., Ahmad, F., ac Ali, A. S. (2014), 'Place Identity: A Theoretical Reflection', *Open House International*, 39 (4), 53–64. <https://doi.org/10.1108/OHI-04-2014-B0006>

Bedford, W. (2024), 'Intangible Cultural Heritage: A Policy Tale of Two Nations', *The Historic Environment: Policy & Practice*, 15 (1), 7–20. <https://doi.org/10.1080/17567505.2023.2293507>

Berg, L. D., a Kearns, R. A. (1996), 'Naming as norming: "Race", gender, and the identity politics of naming places in Aotearoa/New Zealand', *Environment and Planning D: Society and Space*, 14 (1), 99–122. <https://doi.org/10.1080/1464936022000003532>

Bourdieu, P. (1991), *Language and Symbolic Power* (Cambridge: Polity Press).

Bowlby, J., Fry, M., Ainsworth, M. D. S., a'r World Health Organization (1965), *Childcare and the Growth of Love* (Harmondsworth, England: Penguin Books).

Braber, N., a Howard, V. (2023), 'Safeguarding language as intangible cultural heritage', *International Journal of Intangible Heritage*, 18, 146–58. <https://doi.org/10.1080/2159032X.2024.2382625>

Braun, V., a Clarke, V. (2006), 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2), 77–101.
<https://doi.org/10.1191/1478088706qp063oa>

Braun, V., a Clarke, V. (2021), *Thematic Analysis: A Practical Guide* (London: Sage).

Carrus, G., et al. (2014), 'Place attachment, community identification, and pro-environmental engagement', yn Manzo, L. C., a Devine-Wright, P. (goln), *Place Attachment: Advances in Theory, Methods and Applications* (tt. 154–164). (London: Routledge).

Chriost, D. M. G. (2006), 'Prestige Planning and the Welsh Language: Marketing, the Consumer-Citizen and Language Behaviour', *Current Issues in Language Planning*, 6 (1), 64–72.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015), *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. <https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/> [Cyrchwyd: 21 Awst 2025].

Comisiynydd y Gymraeg (2015), *Comisiynydd y Gymraeg: Cynllun Strategol 2015–17*, <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Publications%20List/

Strategic%20Plan%202015-17.pdf> [Cyrchwyd: 21 Awst 2025] [Nid yw'r ddolen bellach yn weithredol].

Davies, J. (2014), *The Welsh Language: A History* (Cardiff: University of Wales Press).

Graves, C. (2024), *Tir: The Story of the Welsh Landscape* (Cardiff: Calon).

Gray, D. R. (2009), *Doing Research in the Real World*, 2il argraffiad (London: Sage).

Harrison, R. (2011), 'Counter-mapping heritage, communities and places in Australia and the UK', yn Schofield, J., a Szymanski, R. (goln), *Local Heritage, Global Context: Cultural Perspectives on Sense of Place: Heritage, Culture and Identity*, 79–98 (London: Routledge).

Hernández, B., Hidalgo, M. C., a Ruiz, C. (2014), 'Theoretical and methodological aspects of research on place attachment', yn Manzo, L., a Devine-Wright, P. (goln), *Place attachment: Advances in theory, methods and applications*, 125–37 (New York: Routledge).

Hidalgo, M. C., a Hernández, B. (2001), 'Place attachment: Conceptual and empirical questions', *Journal of Environmental Psychology*, 21, 273–281.

Inalhan, G., Yang, E., a Weber, C. (2021), 'Place Attachment Theory', yn Appel-Meulenbroek, R., a Danivska, V. (goln), *A Handbook of Theories on Designing Alignment Between People and the Office Environment*, 181–94 (London: Routledge).

Jayakody, D. Y., et al. (2024), 'When does place attachment lead to climate change adaptation and when does it not? A quantitative review and thematic analysis', *Environmental Science and Policy*, 160, 103866.

Jenkins, G. H., a Williams, M. A. (2000), 'The fortunes of the Welsh language 1900–2000: Introduction', yn Jenkins, G. H., a Williams, M. A. (goln), *A social history of the Welsh language: 'Let's do our best for the ancient tongue'* (University of Wales Press: Cardiff).

Kaplan, S. (1995), 'The restorative benefits of nature: Toward an integrative framework', *Journal of Environmental Psychology*, 15(3), 169–82.

Kaplan, R. B. (2017), 'Ecolinguistic aspects of language planning', yn Fill, A., a Penz, H. (goln), *The Routledge Handbook of Ecolinguistics*, 89–105 (London: Routledge).

Keyes, C. L. M. (1998), 'Social well-being', *Social Psychology Quarterly*, 121–40.

Kyle, G. T., Mowen, A. J., a Tarrant, M. (2004), 'Linking place preferences with place meaning: An examination of the relationship between place motivation and place attachment', *Journal of Environmental Psychology*, 24(4), 439–54.

Lewicka, M. (2013), 'In search of roots. Place attachment: Advances in theory, methods and applications', yn Manzo, L. C., a Devine-Wright, P. (goln), *Place attachment: Advances in theory, methods and applications*, 49–60 (Routledge).

Liu, Q., Wu, J., a Zhang, Y. (2023), 'Exploring perceived restoration, landscape perception, and place attachment in historical districts: insights from diverse visitors', *Journal of Environmental Psychology*. <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC10433909/>

Llywodraeth Cymru (2011), *Mesur y Gymraeg (Cymru)*, <https://www.legislation.gov.uk/

mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf> [Cyrchwyd: 21 Awst 2025].

Llywodraeth Cymru (2016), *Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*. <https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/160729-consultation-doc-en.pdf> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2018] [Nid yw'r ddolen bellach yn weithredol].

Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> [Cyrchwyd: 21 Awst 2025].

Llywodraeth Cymru (2025), Blaenoriaethau ar gyfer diwylliant. <https://www.llyw.cymru/blaenoriaethau-ar-gyfer-diwylliant-html> [Cyrchwyd: 21 Awst 2025].

Lv, D., et al. (2025), 'The impact of natural and cultural landscape quality on attachment to place and the intention to recommend tourism in a UNESCO World Heritage city', *Land*, 14 (7), 1405. <https://doi.org/10.3390/land14071405>

Menatti, L., et al. (2019), 'Place attachment and identification as predictors of expected landscape restorativeness', *Journal of Environmental Psychology*, 63, 36–43. <https://doi: 10.1016/j.jenvp.2019.03.005>

Miles, M. B., a Huberman, A. M. (1994), *Qualitative Data Analysis*, 2il argraffiad (London: Sage).

Mühlhäusler, P. (2000), 'Language Planning and Language Ecology', *Current Issues in Language Planning*, 1 (3), 306–67. <https://doi.org/10.1080/14664200008668011>

Orr, S. A., Richards, J., a Fatorić, S. (2021), 'Climate Change and Cultural Heritage: A Systematic Literature Review (2016–2020)', *The Historic Environment: Policy & Practice*, 12 (3–4), 434–77. <https://doi.org/10.1080/17567505.2021.1957264>

Patton, M. Q. (2015), *Qualitative Research and Evaluation Methods*, 4ydd argraffiad (London: Sage).

Proshansky, H. M. (1978), 'The city and self-identity', *Environment and Behaviour*, 10 (2), 147–69. <https://doi.org/10.1177/001391657810200>

Ratcliffe, E., a Korpela, K. M. (2016), 'Memory and place attachment as predictors of place identity', *Journal of Environmental Psychology*, 47, 1–10. <https://doi.org/10.1016/j.jenvp.2016.09.005 >

Rose-Redwood, R., Alderman, D., ac Azaryahu, M. (2010), 'Geographies of toponymic inscription: New directions in critical place-name studies', *Progress in Human Geography*, 34 (4), 453–70. <https://doi.org/10.1177/0309132509351042>

Scannell, L., a Gifford, R. (2010), 'Defining place attachment: A tripartite organizing framework', *Journal of Environmental Psychology*, 30 (1), 1–10. <https://doi.org/10.1016/j.jenvp.2009.09.006>

Silverman, D. (2013), *Doing Qualitative Research: A Practical Handbook*, 4ydd argraffiad (London: Sage).

St Leger, L. (gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru) (2024), *Diwylliant a Risg Hinsawdd – Papur Gwyn*, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, <https://doi.

org/10.25401/cardiffmet.26520739 >

St Leger, L. (2025), 'When the street talks: understanding the impact of climate change on heritage tourism and sense of place in Wales', *Journal of Heritage Tourism*, 20 (6), 747–63. <https://doi.org/10.1080/1743873X.2025.2552687>

Tenbrink, T. (2020), *Cognitive Discourse Analysis: An Introduction* (Cambridge University Press).

Tenbrink, T., et al. (2026), 'How a minority language relates to place attachment and nature connection: The case of Welsh', *Cogent Arts & Humanities*, 13 (1).

Tenbrink, T., a Williams, A. J. (2022), 'Linguistic expression of place appreciation in English and Welsh: A case study in North Wales', *JOSIS Journal of Spatial Information Science*, 24, 85–112. <https://doi.org/10.5311/JOSIS.2022.24.209>

Tenbrink, T., a Willcock, S. (2023), 'Place attachment and perception of climate change as a threat in rural and urban areas', *PLoS ONE*, 18 (9), e0290354. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0290354>

Turton, C. J., 'Defining residential place attachment and exploring its contribution to community and personal environmental actions', traethawd PhD, Prifysgol Surrey, Guilford, Surrey, 2016. <https://openresearch.surrey.ac.uk/esploro/outputs/doctoral/Defining-residential-place-attachment-and-exploring/99512849302346> [Cyrchwyd: 21 Awst 2025].

UNESCO (2003), *Text of the Convention for the Safeguarding of the Intangible Cultural Heritage*. <https://ich.unesco.org/en/convention> [Cyrchwyd: 21 Awst 2025].

Vanhöfen, J., Härtel, T., a Reichert, G. (2025), 'The relationship between perception and landscape characteristics of recreational places with human mental well-being', *Scientific Reports*, 15, Article 88414. <https://doi.org/10.1038/s41598-025-88414-5>

Vaske, J. J., a Kobrin, K. C. (2001), 'Place attachment and environmentally responsible behaviour', *The Journal of Environmental Education*, 32 (4), 16–21. <https://doi.org/10.1080/00958960109598658>

Wu, S. J., et al. (2023), 'Influence of landscape preference and place attachment on responsible environmental behavior – A study of Taipei's Guandu Nature Park wetlands, Taiwan', *Land*, 12 (11), 2036. <https://doi.org/10.3390/land12112036>

Xu, G., et al. (2019), 'Beyond place attachment: Land attachment of resettled farmers in Jiangsu, China', *Sustainability*, 11 (2), 420. <https://doi.org/10.3390/su11020420>

Yang, L., a Liu, J. (2025), 'The moderating effect of visual landscape and soundscape on place attachment in world cultural heritage: A case study in Kulangsu, China', *Heritage Science*, 13, Article 94. <https://doi.org/10.1038/s40494-025-01589-y>